# Symud Freeview i sicrhau bod mwy o donnau awyr ar gael ar gyfer darpariaeth symudol - y 'Rhaglen Clirio 700 MHz'

## Y Diweddaraf: 16 Gorffennaf 2020

Ar 26 Mawrth 2020, cyhoeddodd Ofcom ddiweddariad ar gynnydd y rhaglen i glirio 700 MHz. Roedd y diweddariad hwnnw'n cadarnhau y penderfynwyd gohirio'r ddau ddigwyddiad olaf ynghylch clirio'r band 700 MHz, a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill. Felly, cafodd y rhaglen i glirio'r band 700 MHz ei dal yn ôl nes i berygl COVID-19 leihau.

Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid y rhaglen i ddatblygu amserlen ddiwygiedig ar gyfer clirio'r band 700 MHz nawr fod risg COVID-19 wedi lleihau. Gallwn nawr gadarnhau bod y ddau ddigwyddiad clirio sydd ar ôl wedi cael eu trefnu ar gyfer 12fed a 19eg Awst 2020. Bydd Digital UK yn rhoi gwybod am y newidiadau i'r gwylwyr y gallai'r digwyddiadau hyn i glirio 700 MHz effeithio arnynt a bydd yn cynnig cefnogaeth i ail-diwnio eu teledu drwy wefan Freeview yn www.freeview.co.uk/tvchanges a Llinell Gyngor Freeview ar 0808 100 0288. Mae'n bosibl y bydd gwylwyr yn gymwys i gael cymorth yn eu cartref, gan gynnwys addasu erial neu ei newid lle bo angen.